Nodiadau Cyfarfod

Teitl y cyfarfod:	**Fforwm Rheoli Dŵr Cymru**
Lleoliad:	**Wyneb yn wyneb yn y Fenni**
Dyddiad y cyfarfod:	10 Gorffennaf 2025
Hefyd yn bresennol:	Steve Ormerod (cadeirydd), Rhian Thomas (CNC), Ceri Jones (CNC), Ruth Johnston (CNC), Dominic Driver (CNC), Jeremy Tanner (CNC), Rhodri Powell (CNC), Gail Davies-Walsh (cynrychiolydd Cyswllt Amgylchedd Cymru – Afonydd Cymru), Dennis Matheson (Cymdeithas y Ffermwyr Tenant), Richard Waggett (CNC), Bethan Davies (Llywodraeth Cymru), Shaun Dowen (United Utilities), Sharon Ellwood (Dŵr Cymru), Rhodri Powell (CNC) Ar gyfer y daith maes (CNC) – Leila Thornton, Sophie Gott, Suzie Kinghan
Ymddiheuriadau:	Rachel Lewis Davies (Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr), Lia Murphy (Ofwat), Fraser McAuley (Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad), David James (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru) David MacCallum (CNC), Elizabeth Franks (Cyfarwyddeb Cynefinoedd), Gemma Haines (Undeb Amaethwyr Cymru), Richard Blackwell (Water Resources West), Inoka Manatunga (CNC), Gareth Parry (Undeb Amaethwyr Cymru), Elaine Harrison (Confor), Laura Moss (yr Arolygiaeth Dŵr Yfed), Kate Evans (Ofwat), Lia Moutselou (CGC)
Ysgrifenyddiaeth:	Ceri Jones

Eitem 1 Croeso – Yr Athro Steve Ormerod (cadeirydd)

Fel cadeirydd, rhoddodd yr Athro Steve Ormerod air o groeso ar ddechrau'r diwrnod. Yna, rhannwyd manylion prosiect Pedair Afon LIFE cyn yr ymweliad â'r safle yn y Fenni.

Yna, aeth Fforwm Rheoli Dŵr Cymru fel grŵp i lawr at afon Wysg. Dychwelodd y grŵp i'r lleoliad am 12pm a dechreuodd cyfarfod y prynhawn am 1pm.

Eitem 2 Ymddiheuriadau, aelodau newydd, cytuno ar nodiadau'r cyfarfod ac adolygu'r cofnod o gamau gweithredu – Yr Athro Steve Ormerod (cadeirydd) a Ceri Jones (CNC)

Nodwyd yr ymddiheuriadau ac fe'u cofnodwyd ar gyfer nodiadau'r cyfarfod. Croesawyd aelodau newydd, gan gynnwys Sharon Ellwood (Dŵr Cymru), Shaun Dowen (United Utilities) a Bethan Davies (Llywodraeth Cymru).
Croesawyd Rhodri Powell a Richard Waggett o CNC hefyd, a oedd yn cyfrannu at agenda'r diwrnod.

Bu'r aelodau yn ystyried nodiadau'r cyfarfod blaenorol (14 Tachwedd 2024) a chadarnhawyd eu bod yn gywir. Byddant nawr yn cael eu hychwanegu at dudalen we Fforwm Rheoli Dŵr Cymru.

Adolygwyd y cofnod o gamau gweithredu. Roedd yna ychydig o gamau gweithredu parhaus a gafodd eu cau. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gamau gweithredu parhaus ar gyfer y fforwm.

Eitem 3 Yr wybodaeth ddiweddaraf am ddŵr (pob un)

Grŵp gorchwyl a gorffen y Cynllun Rheoli Basnau Afon

Rhoddodd CJ yr wybodaeth ddiweddaraf ar waith y Cynllun Rheoli Basnau Afon, gan gynnwys gwaith grŵp gorchwyl a gorffen y cynllun. Fel arfer, mae'r wybodaeth ddiweddaraf am y Cynllun Rheoli Basnau Afon wedi'i chynnwys mewn papur ategol ar gyfer Fforwm Rheoli Dŵr Cymru, ond ar gyfer sesiwn heddiw roedd hyn ar lafar. Bydd diweddariad ysgrifenedig yn cael ei rannu ar draws Fforwm Rheoli Dŵr Cymru yn ddiweddarach yn yr haf.

CAM GWEITHREDU: CJ i ddosbarthu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y Cynllun Rheoli Basnau Afon i Fforwm Rheoli Dŵr Cymru erbyn 10 Medi

Mae grŵp gorchwyl a gorffen y Cynllun Rheoli Basnau Afon wedi bod yn cyfarfod bob dau fis, a bydd yn parhau i gyfarfod. Ei ffocws presennol yw adroddiad adolygu cynnydd rhaglen o fesurau cylch 3 y Cynllun Rheoli Basnau Afon, a hefyd ymgynghoriad statudol nesaf cylch 4 y Cynllun Rheoli Basnau Afon, sef 'Heriau a dewisiadau – y materion rheoli dŵr sylweddol'. Mae mewnbwn y grwpiau gorchwyl a gorffen wedi bod yn amhrisiadwy ac wedi helpu i lywio'r ddau faes gwaith. Mae dulliau gweithredu yn y dyfodol ar gyfer y Cynllun Rheoli Basnau Afon yn seiliedig ar waith y Comisiwn Dŵr Annibynnol, a dulliau gweithredu yn y dyfodol ar gyfer y rhaglen o fesurau yn dasgau arfaethedig ar gyfer y grŵp hwn.

Pwyntiau trafod a nodwyd:

- Dangosyddion a ddefnyddir i ddangos cynnydd a/neu gamau gweithredu, a sut mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yn adroddiad cylch 3 y Cynllun Rheoli Basnau Afon. Codwyd pwynt hefyd ynglŷn â'r argymhellion arfaethedig yn yr adroddiad, ac at bwy y maent wedi'u hanelu, sef a ydynt yn argymhellion ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru neu eraill, fel Llywodraeth Cymru.

- Dosbarthiad a sut rydym yn adrodd ar ansawdd, gan gynnwys newid elfennol
- Goblygiadau gwaith y Comisiwn Dŵr Annibynnol ac adolygiad barnwrol afon Costa Beck yn Lloegr

Y Porth Adfer Afonydd

Rhannwyd trosolwg a sgrin luniau o'r Porth Adfer Afonydd. Roedd hwn yn gyflwyniad addysgiadol a chafodd dderbyniad da fel cam cadarnhaol i ddod â data CNC a data partneriaid at ei gilydd. O fewn CNC, defnyddiwyd y porth i lywio prosiectau yn y dyfodol, ac yn yr un modd mae Afonydd Cymru hefyd yn defnyddio'r data hwn. Mae potensial yma i adeiladu ar hyn, yn enwedig gyda chamau gweithredu lleol y Cynllun Rheoli Basnau Afon (dalgylchoedd â chyfleoedd) a'r gwaith pysgodfeydd (CNC ac Afonydd Cymru) ac mae'r porth yn cael ei ystyried yn gam cadarnhaol iawn i ddod â'r gwaith hwn ynghyd.

Pwyntiau trafod a nodwyd:

- Statws presennol y prosiect gât dŵr croyw. Mae hwn wedi'i atal ar hyn o bryd.
- Manteision biolegol gwaith adfer geomorffolegol
- Manteision gwaith – beth yw'r manteision ar ôl cwblhau prosiect? Defnyddir rhywfaint o gymhariaeth o'r dulliau a ddefnyddir gan y diwydiant dŵr
- Rhannu'r gwaith hwn gyda rhwydwaith Cyswllt Amgylchedd Cymru drwy'r grŵp dŵr

Y Rhaglen Cyfalaf Dŵr

Rhannwyd trosolwg o'r gronfa argyfwng natur a hinsawdd, gyda ffocws ar yr elfen ansawdd dŵr a oedd yn cynnwys ansawdd dŵr, pysgodfeydd a'r rhaglen mwyngloddiau metel. Mae'r rhaglen bellach yn cynllunio ar raddfa sawl blwyddyn, sy'n symudiad cadarnhaol oddi wrth gyllidebau a phrosiectau blynyddol.

Pwyntiau trafod a nodwyd:

- Byddai mapio canlyniadau ochr yn ochr ag ymyriadau yn ddefnyddiol; felly hefyd adrodd ar hyn
- Prosiectau newydd ar gyfer y dalgylch cyfle morol, gan gynnwys yr ardaloedd cadwraeth arbennig morol
- Dewisiadau ariannu'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer afonydd a chysgod

Cyfraniadau gan aelodau

Cyfraniad ysgrifenedig gan Water Resources West. Cyhoeddwyd cynllun rhanbarthol terfynol WRW ar gyfer 2025 ar 12 Mehefin.

Codwyd pwynt am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a'r goblygiadau i ffermwyr tenant, gan nodi'r heriau iddyn nhw pan nad ydynt yn berchen ar y tir, a'u bod wedi'u rhwymo gan eu cytundeb tenantiaeth, yn enwedig mewn perthynas â gwelliannau i'w ffermydd yn yr hirdymor.

Mae cwmnïau dŵr bellach yn canolbwyntio ar gyflawni wythfed cyfnod y Cynllun Rheoli Asedau. Cytunodd yr aelodau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd a rhannu adolygiad cynnydd blynyddol y rhaglen hon.

CAM GWEITHREDU: Aelodau'r cwmnïau dŵr i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ar y rhaglen i Fforwm Rheoli Dŵr Cymru, a hefyd rhannu canfyddiadau eu hadolygiad cynnydd blynyddol

Codwyd pwynt am Dasglu Gwella Ansawdd Afonydd Cymru ochr yn ochr ag adolygiad Llywodraeth Cymru o lywodraethu, ac uwchgynhadledd afonydd gyntaf Llywodraeth Cymru a gynhaliwyd ym mis Mai. Tynnwyd sylw at gylch gwaith ehangach posibl y tasglu, a allai edrych ar briffyrdd a thanciau carthion.

Eitem 4 Unrhyw fater arall a dyddiad y cyfarfod nesaf

Nid oedd unrhyw fater arall. Bydd dyddiadau cyfarfodydd yn cael eu dosbarthu ar gyfer mis Tachwedd a mis Mawrth.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.30pm.